

Rhif Eitem Agenda 3.1.1

Cofnodion o Gyfarfod Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg gynhaliwyd dydd Iau 28 Gorffennaf 2022 fel Cyfarfod Darllediad Byw Rhithiol via Microsoft Teams:

Aelodau'n Bresennol:

Emrys Elias	Cadeirydd
Paul Mears	Prif Weithredwr
Jayne Sadgrove	Dirprwy Gadeirydd/Aelod Annibynnol
Patsy Roseblade	Aelod Annibynnol
Ian Wells	Aelod Annibynnol
Geraint Hopkins	Aelod Annibynnol
Mel Jehu	Aelod Annibynnol
Nicola Milligan	Aelod Annibynnol
James Hehir	Aelod Annibynnol
Carolyn Donoghue	Aelod Annibynnol
Dilys Jouvenat	Aelod Annibynnol
Greg Dix	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio
Linda Prosser	Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd
Gethin Hughes	Prif Swyddog Gweithredol
Kelechi Nnoaham	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd (mynychwyd drwy'r sesiwn gyhoeddus)
Sally May	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid
Dom Hurford	Cyfarwyddwr Meddygol Dros Dro
Lisa Curtis-Jones	Aelod Cyswllt
Anne Morris	Aelod Cyswllt

Yn Bresennol:

Georgina Galletly	Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol
Stuart Morris	Cyfarwyddwr Digidol
Bryany Tweedale	Bydwraig Ymgynghorol (Yn rhannol)
Melanie Barker	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Therapiau a Gwyddorau Iechyd
Michelle Hurley-Tyers	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Profiad a Llesiant Gweithwyr
Ana Llewellyn	Cyfarwyddwr Nyrsio ILG Pen-y-bont ar Ogwr
Wendy Penrhyn-Jones	Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol a Busnes Bwrdd
Richard Morgan- Evans	Pennaeth Staff
Lee Leyshon	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ymgysylltu a Chyfathrebu
Emma Samways	Archwilio Mewnol
Sara Utey	Archwilio Cymru
Daniel Price	Prif Swyddog, Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf Morgannwg
Emma Walters	Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol (Ysgrifenyddiaeth)

Eitem agenda 1

MATERION RHAGARWEINIOL

1.1 Croeso a Chyflwyniadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn enwedig y rhai sy'n ymuno am y tro cyntaf, y rhai sy'n arsylwi a chydweithwyr yn ymuno ar gyfer eitemau penodol ar yr agenda. **Nodwyd** trefn y gweithrediadau yn ei ffurf rithiol hefyd gan y Cadeirydd

1.2 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan

- Lynda Thomas, Aelod Annibynnol
- Lauren Edwards, Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau
- Hywel Daniel, Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Pobl

1.3 Datganiadau o Fuddiant

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant ychwanegol.

2 RHANNU GWRANDO A DYSGU

2.1 Stori'r Claf

Ni rannwyd Stori'r Claf ar y pwynt yma oherwydd materion technegol.

3 AGENDA CANIATÂD

3.1 I'W GYMERADWYO

3.1.1 Cofnodion heb eu cadarnhau o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mai 2022

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** y cofnodion.

3.1.2 Cofnodion heb eu cadarnhau o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2022

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** y cofnodion.

3.1.3 Adroddiad y Cadeirydd - Gosod y Sêl Gyffredin a Chadarnhau Gweithred y Gadair

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** yr adroddiad.

3.1.4 Adroddiadau Blynyddol y Pwyllgor

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** yr adroddiadau.

3.1.5 Adroddiadau ar Brif Bwyntiau'r Pwyllgor

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad a **CHYMERADWYWYD** y Cylch Gorchwyl.

3.2 I'W NODI

3.2.1 Log Gweithredu

Penderfyniad: **NODWYD** Y Log Gweithred

3.2.2 Cylch Busnes Blynyddol y Bwrdd

Penderfyniad: **NODWYD** yr Adroddiad.

3.2.3 Blaenraglen Waith y Bwrdd

Penderfyniad: **NODWYD** Blaenraglen Waith y Bwrdd

3.2.4 Adroddiadau ar Brif Bwyntiau'r Cyd Bwyllgor

Penderfyniad: **NODWYD** yr Adroddiadau.

3.2.5 Adroddiad Blynyddol Gweithio i Wella

Penderfyniad: **NODWYD** yr Adroddiad.

4. PRIF AGENDA

4.1 Materion yn Codi nad ystyriwyd o fewn y Log Gweithredu

Ni chafodd unrhyw faterion pellach eu nodi.

5. LLYWODRAETHU A SICRWYDD INTEGREDIG

5.1 Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd P Mears yr adroddiad gan dynnu sylw at y pwyntiau allweddol ar gyfer sylw'r Bwrdd

Penderfyniad: **NODWYD** yr Adroddiad.

5.2 Fframwaith Sicrwydd Bwrdd

Cyflwynodd G Galletly Fframwaith y Bwrdd gan dynnu sylw'r Aelodau'n at y newidiadau penodol yn y sgôr risg.

Dywedodd P Roseblade am ganlyniadau'r risgiau a oedd yn ymddangos fel pe bai'n newid yn sylweddol ac ychwanegodd mai tebygolrwydd y risg oedd yn debygol o newid yn hytrach na'r canlyniad, heblaw mewn amgylchiadau

arbennig. Dywedodd P Roseblade ei bod yn croesawu'r ail eirio'r risg digidol oedd yn enghraifft o risg lle gall canlyniad y risg newid.

Croesawodd I Wells hefyd y newidiadau a wnaed i ail eirio'r risg digidol gan ychwanegu ei fod yn teimlo bod yn deall yn well lle'r oedd y bylchau a'r camau lliniaru oedd yn cael eu cymryd. Ychwanegodd I Wells bod aeddfedrwydd y broses wedi ei gwneud yn llawer haws llywio drwy'r dogfennau.

Dywedodd G Galletly, er ei bod yn cydnabod bod y Bwrdd wedi cytuno i beidio â derbyn y gofrestr risg sefydliadol o ganlyniad i gyflwyno Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, bod y gofrestr risg wedi'i uwchlwytho i Reolaeth Weinyddol i aelodau'r Bwrdd i'w weld os oeddent yn dymuno.

Cyfeiriodd M Jehu at risg rhif 5 oedd yn ymwneud ag ymgysylltu â'r gymuned a phartneriaid, gan gynghori ei fod yn teimlo'n sicr y byddai'r risg yn lleihau ymhen amser o ganlyniad i'r gwaith sy'n cael ei wneud gyda phartneriaid.

Mynegodd y Cadeirydd ei ddiolchgarwch i G Galletly am gyflwyno'r adroddiad.

CYMERADWYFYD y Fframwaith Sicrwydd Bwrdd

Penderfyniad:

Adroddiadau ar Brif Bwyntiau'r Pwyllgor Digidol a Data

5.3

Cyflwynodd I Wells yr adroddiad gan gyfeirio at yr eitem a gynhwysir yn yr adran rhybudd uwch gyfeirio sy'n ymwneud â'r sefyllfa fregus ynghylch y swyddogaeth Llywodraethu Gwybodaeth ac ymddiswyddiad diweddar y Pennaeth Llywodraethu presennol. Nododd aelodau fod ymddiswyddiadau pellach wedi bod o fewn y tîm ers i'r drafodaeth gael ei chynnal, a nododd fod gwaith yn cael ei wneud i liniaru'r risg trwy'r newidiadau model gweithredu newydd. Nododd yr aelodau fod y risg bellach wedi cynyddu i 5 a'i fod wedi'i godi i'r Tîm Gweithredol i'w drafod.

Dywedodd G Galletly fod hwn wedi bod yn faes ffocws i'r Pwyllgor Digidol a Data ac wedi cael ei adnabod ar y gofrestr risg ers peth amser. Nododd yr aelodau y byddai swyddogaeth Llywodraethu Gwybodaeth yn symud i bortffolio'r Cyfarwyddwr Digidol yn fuan ac er bod cyfweiliadau wedi'u cynnal ar gyfer y Pennaeth Llywodraethu, ni ellid gwneud apwyntiad llwyddiannus. Nododd Aelodau bod gwaith ar hyn o bryd yn cael ei wneud i ail-werthuso'r sefyllfa mewn perthynas â lliniaru tymor byr a chynllun tymor hirach.

Cadarnhaodd S Morris fod ystyriaeth yn cael ei roi i strwythur y swyddogaeth Ddigidol i benderfynu sut y gellid datblygu a chefnogi swyddogaeth gydymffurfio. Ychwanegodd S Morris bod adolygiad o'r Swydd Ddisgrifiad o ran y Pennaeth Swydd Llywodraethu Gwybodaeth yn ar waith i sicrhau bod y swydd yn denu pwll ehangach â phosib o ymgeiswyr i mewn i'r sefydliad. Nododd Aelodau'r Bwrdd fod swydd ychwanegol yn cael ei hymgorffori yn y swyddogaeth i helpu gwytnwch y swyddogaeth gyda'r bwriad o ddarparu safle gwell erbyn yr hydref. Nododd aelodau fod cefnogaeth dros dro hefyd yn cael ei ddarparu gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

Mynegodd y Cadeirydd ei ddiolchgarwch i G Galletly am gyflwyno'r adroddiad.

NODWYD yr Adroddiad.

Penderfyniad: Ar y pwynt hwn, adroddodd y Cadeirydd, oherwydd materion technegol parhaus, nad oedd yn bosib eto i chwarae fideo stori'r Claf, ond eu bod yn dal i weithio i ddatrys y broblem gan obeithio medru rhannu'r stori cyn diwedd y cyfarfod.

6 CYFLAWNI EIN CYNLLUNIAU ADFER/GWELLA

6.1 Gwella Gofal Brys

Rhannodd G Hughes y cyflwyniad gyda'r Aelodau yn eu hatgoffa o egwyddorion y rhaglen chwe gôl.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan M Jehu ynglŷn â'r diffiniad o fynychwr aml dwyster uchel a pha waith oedd yn cael ei wneud i leihau nifer derbyniadau'r cleifion hyn, dywedodd G Hughes fod Cleifion yn aml yn mynychu'r adran Damweiniau ac Argyfwng am nifer o resymau, a bod rhestr o'r math o fynychwyr o'r fath yn cael ei lunio. Nododd yr aelodau mai nod hyn oedd pennu'r rheswm dros bresenoldeb a'r math o gymorth oedd ei angen gan gynnwys cymorth seicolegol. Ychwanegodd G Hughes bod gwaith yn cael ei wneud gyda chydweithwyr meddygon teulu i benderfynu a oedd angen rhoi trefniadau cymorth amgen ar waith ar gyfer cleifion a oedd yn fynychwyr cyson. Nododd aelodau bod ystyriaeth hefyd yn cael ei roi i gyfeirio cleifion at ffynonellau cymorth yn y gymuned.

Dywedodd D Hurford, er bod nifer o fentrau y gellid eu rhoi ar waith ar gyfer mynychwyr cyson, nododd yr Aelodau, er bod meddygfeydd dan straen, bod hyn yn cael effaith ar y nifer cynyddol o bresenoldeb yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys.

Cyfeiriodd N Milligan at y 20 Grŵp Gorchwyl a Gorffen a oedd wedi'u sefydlu o fewn y rhaglen waith hon a dywedodd bod y mwyafrif o'r grwpiau hyn yn debygol o gynnwys yr un staff ac ychwanegodd fod gan Grwpiau Gorchwyl a Gorffen dueddiad i lithro, gyda phresenoldeb yn lleihau wrth i'r cyfarfodydd fynd yn eu blaen. Dywedodd G Hughes nad oedd y grwpiau'n rhedeg ar yr un pryd ac ychwanegodd bod rhai wedi cael eu cyfuno i fforymau presennol. Dywedodd G Hughes y byddai camau yn cael eu cymryd i sicrhau bod pob grŵp yn glir iawn ynglŷn â'r dasg roedden nhw wedi ei chlustnodi ynghyd â threfniadau llywodraethu clir o ran systemau adrodd. .

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan J Hehir ynghylch a oedd unrhyw ddibyniaethau eraill i gyflawni'r cerrig milltir, dywedodd G Hughes fod y gweithlu yn faes pryder sylweddol ac ychwanegodd bod ystyriaeth yn cael ei roi i atebion arloesol y gweithlu, oedd yn cynnwys dod â staff i mewn i'r sefydliad nad oedd wedi ystyried gweithio mewn gofal iechyd o'r blaen.

Estynnodd J Sadgrove diolch i G Hughes am y cyflwyniad a gofynnodd am eglurder ynglŷn â'r cynlluniau sydd ar waith mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth. Dywedodd G Hughes fod yr awydd am gydweithio yn gryf gyda threfniadau ymgysylltu da ar waith gyda'r tri maes awdurdod lleol a thrafodaethau'n cael eu cynnal mewn perthynas â symud i lefel uwch o gydweithio ac integreiddio. Ychwanegodd L Prosser bod darnau o waith â ffocws yn cael eu gwneud i ddisgrifio'r hyn a olygwyd mewn perthynas â 'system Iechyd a Gofal Cymdeithasol cwbl integredig', a fyddai'n cynnwys mentrau ar y cyd, swyddi rheoli ar y cyd a chyllidebau pŵl. Nododd yr aelodau fod cynllun yn y broses o gael ei ddatblygu a'r gobaith oedd y byddai modd cyflwyno diweddariad pellach i gyfarfod Bwrdd Medi 2022 yn amlinellu'r gwaith sy'n cael ei wneud.

Dywedodd P Mears y byddai'r gwaith sy'n cael ei wneud gyda phartneriaid awdurdodau lleol yn allweddol i ddatrys rhai o'r materion sy'n cael eu profi ac ychwanegodd ei fod wedi cynnal trafodaethau gyda chydweithwyr cyngor bwrdeistref sirol yn ddiweddar mewn perthynas â dod â Thimau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn agosach at ei gilydd. Dywedodd P Mears y byddai angen i'r Bwrdd Iechyd hefyd sicrhau ei fod yn cysylltu â'r darnau o waith y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud, er enghraifft, datblygu Clwstwr Meddygon Teulu. Nododd yr aelodau y byddai symud tuag at strwythur Grŵp Gofal o fewn y Model Gweithredu newydd yn helpu o ran rheolaeth ac arweinyddiaeth y maes gwaith hwn.

Dywedodd G Hopkins fod awydd gwirioneddol mewn lle o fewn yr awdurdod lleol am weithio ar y cyd ac ychwanegodd fod cleifion ond eisiau cael sicrwydd y bydden nhw'n gallu cael y gofal iechyd mwyaf priodol pan fo angen. Mynegodd G Hopkins ei bryder am yr ymadrodd 'maes o law' sy'n cael ei ddefnyddio. Dywedodd P Mears fod y Bardd Iechyd wedi ymrwymo i symud ymlaen gyda'r darn hwn o waith ar gyflymder a chynghori y byddai cynnig ar gyfer Tîm Integredig Yn y Gymuned Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael ei ddatblygu erbyn mis Medi 2022.

Mynegodd y Cadeirydd ei ddiolchgarwch i G Hughes am rannu'r cyflwyniad.

Penderfyniad: **NODWYD** yr Adroddiad.

6.2 Adferiad Gofal Dewisol

Rhannodd G Hughes y cyflwyniad gyda'r Aelodau gan dynnu sylw at y materion allweddol ar gyfer sylw'r Bwrdd.

Canmolodd C Donoghue y cyflwyniad a'r dull arloesol sy'n cael ei gymryd i fynd i'r afael â'r heriau a cheisiodd eglurder a oedd mwy o le i Fyrddau Iechyd weithio'n fwy ar y cyd a rhannu arbenigedd o ystyried rhai o'r pwysau yr oedd rhai gwasanaethau penodol o dan, er enghraifft, Patholeg. Cadarnhaodd P Mears fod Grŵp Prif Weithredwyr wedi'i sefydlu rhwng Cwm Taf Morgannwg, Caerdydd ac Aneurin Bevan ac ychwanegodd bod y tri bwrdd iechyd wedi cytuno i weithio ar y cyd mewn perthynas â Diagnosteg, Orthopaedeg ac Offthalmoleg.

Nododd aelodau bod nifer o opsiynau yn cael eu trafod a oedd yn cynnwys datblygu mwy o allu yn y gymuned i ddarparu sganio a datblygu gwasanaethau patholeg ranbarthol.

Cyfeiriodd I Wells at y materion hirdymor oedd wedi bod mewn lle mewn perthynas â uno systemau Technoleg Gwybodaeth Pen-y-bont ar Ogwr gan ofyn am eglurder ynghylch y term a ddefnyddir ynghylch annhegwch rhestrau aros a allai gael ei achosi gan yr uno digidol. Dywedodd G Hughes bod rhestrau aros gwahaniaethol rhwng Pen-y-bont ar Ogwr a gweddill Cwm Taf Morgannwg ar hyn o bryd a bod camau'n cael eu cymryd i symud tuag at un rhestr unigol er mwyn sicrhau nad oedd clefion dan anfantais, yn enwedig yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr. Dywedodd S Morris, fel ateb dros dro, bod ei Dîm wedi cael cais i ystyried sut y gellid awtomeiddio rhai o'r prosesau gweinyddol er mwyn galluogi i'r rhestrau gael eu deillio y tu allan i'r system Weinyddol Clefion i gynorthwyo'r Prif Swyddog Gweithredu i gyflawni system rhestr aros eang un sefydliad.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan J Hehir ynglŷn â faint o hyder a gynhaliwyd mewn perthynas â chyrraedd y targedau o ystyried yr heriau digidol a'r gweithlu, dywedodd G Hughes y byddai hyn yn ddibynnol ar bob arbenigedd, gyda rhai ardaloedd arbenigol yn cael mwy o heriau nag eraill. Ychwanegodd G Hughes bod adolygiad o bob gwasanaeth yn cael ei gynnal i benderfynu sut y gellir ei gyflawni orau.

Mynegodd y Cadeirydd ei ddiolchgarwch i G Hughes am rannu'r cyflwyniad.

Penderfyniad: **NODWYD** yr Adroddiad.

6.3 Rhaglen Gwella'r Gwasanaethau Mamolaeth a Newydd-anedig

Cyflwynodd G Dix a D Hurford yr adroddiad gan dynnu sylw at y pwyntiau allweddol i Aelodau.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan P Roseblade ynglŷn â 'sut olwg dda' mewn perthynas â'r graff arsylwi cylchdro ar dudalen 8 o'r adroddiad, dywedodd D Hurford fod y graff wedi'i gynnwys i ddangos a darparu sicrwydd bod staff nyrsio a meddygol yn dechrau cylchdroi rhwng canolfannau trydyddol.

Rhoddodd J Sadgrove sicrwydd pellach bod craffu manwl ar Wasanaethau Mamolaeth a Newydd-anedig wedi'i wneud yn y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn ogystal â'r Bwrdd Gwella Mamolaeth a Newydd-anedig. Dywedodd J Sadgrove hefyd ei bod fel Aelod Annibynnol yn cymryd rhan weithredol yn yr adolygiad tystiolaeth manwl sy'n cael ei gynnal mewn perthynas â gwelliannau'r Gwasanaethau Newydd-anedig. Nododd yr aelodau fod proses newid ar waith a oedd yn cael ei chynnal a nododd fod rhagor o waith yn cael ei wneud i ddatblygu'r dangosfyrddau. Dywedodd J Sadgrove ei bod yn edrych ymlaen at ymweld ag Ysbyty'r Tywysog Siarl y diwrnod canlynol i gynnal yr ymweliad '15 cam cyntaf' â'r gwasanaeth.

Mynegodd y Cadeirydd ei ddiolchgarwch i G Dix a D Hurford am gyflwyno'r adroddiad.

Penderfyniad: **NODWYD** yr Adroddiad.

6.4 Cynllun Gwella Tŷ Llidiard

Cyflwynodd A Llewellyn yr adroddiad.

Dywedodd D Jouvenat am y digwyddiad ymgysylltu a gynhaliwyd ac estyn ei llongyfarchiadau ynglŷn â pha mor dda y mynychodd hyn. Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan D Jouvenat am sut y byddai'r tîm yn gweithredu ar yr adborth a gafwyd yn y digwyddiad, dywedodd Llewellyn y byddai'r adborth yn cael ei gynnwys mewn cynllun gweithredu integredig a fyddai'n cael ei drafod yn y Bwrdd Gwella. Nododd aelodau bod y Tîm eisoes yn y broses o roi sylw i rywfaint o'r adborth a gafwyd.

Dywedodd P Mears ei fod am gydnabod y gwaith sylweddol a wnaed gan y staff yn Nhŷ Llidiard, yn enwedig yn sgil lefel y craffu allanol yr oedd y gwasanaeth wedi bod oddi tano, a fu'n hynod o heriol. Dywedodd P Mears fod y tîm wedi gwneud gwaith ardderchog wrth wella'r gwasanaeth ac ychwanegodd y byddai recriwtio staff Therapïau i'r tîm yn gam sylweddol ymlaen. Nododd aelodau fod adborth cadarnhaol wedi cael ei dderbyn gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a'r Gweinidog ynglŷn â'r gwelliannau oedd wedi eu gwneud ac estynnodd P Mears ei ddiolch i A Llewellyn a'r holl staff oedd ynghlwm â'r gwaith o wella.

Croesawodd P Roseblade yr adroddiad a oedd, meddai yn addysgiadol iawn a cheisiai eglurder a oedd unrhyw weithgaredd corfforol yn cael ei ddarparu i'r cleifion er mwyn helpu i fynd i'r afael ag unrhyw faterion diflastod posibl. Estynnodd A Llewellyn wahoddiad i P Roseblade i ddechrau iddi ddod i ymweld â'r uned gan nodi fod campfa ar y safle ac er bod llawer o gyfleoedd i gleifion ymgymryd â gweithgareddau corfforol, o ganlyniad i bwysau staffio nid oedd bob amser yn bosib darparu rhai o'r rhain. Nododd yr aelodau bod adnoddau staff wedi'u hadolygu ers hynny i sicrhau bod gweithgarwch corfforol yn bosibl.

Diolchodd J Sadgrove A Llewellyn am gyflwyno'r adroddiad a dywedodd wrth yr Aelodau fod y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch wedi craffu'n fanwl ar y sefyllfa ar sawl achlysur. Dywedodd J Sadgrove fod y ffordd i wella yn aml yn cymryd amser ac ychwanegodd y byddai'n bwysig sicrhau bod newidiadau'n cael eu gwreiddio i sicrhau eu bod yn dod yn gynaliadwy. Dywedodd J Sadgrove y byddai recriwtio Therapyddion yn rhan fawr o'r gwelliannau sy'n cael eu gwneud mewn perthynas â thrawsnewid ac ychwanegodd nad oedd y tîm yn hunanfodlon ac am ddangos i randdeiliaid eu bod wedi ymrwymo i feddwl a gwneud pethau'n wahanol. Diolchodd J Sadgrove hefyd i A Llewellyn a'r tîm am yr holl waith yr oeddent yn ei wneud, oedd yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

Mynegodd M Jehu ei ddiolchgarwch hefyd i'r tîm am y gwaith a gynhaliwyd a cheisiodd eglurder ynglŷn â sut oedd yr arweinyddiaeth a'r diwylliant ar hyn o bryd. Nododd A Llewellyn fod y diwylliant yn teimlo'n fwy agored, tryloyw, cynhwysol ac eangfrydig, gyda staff yn teimlo eu bod yn medru gwneud awgrymiadau a bod yn rhan o'r atebion. Er bod nifer o swyddi allweddol heb eu llenwi eto nododd aelodau bod uchelgais ymhlith staff i ymdrechu tuag at ragoriaeth.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan M Jehu ynghylch a oedd unrhyw wersi a ddysgwyd y gellid eu trosglwyddo i feysydd eraill, dywedodd A Llewellyn am yr angen i atgoffa cydweithwyr yn garedig ein bod ni fel Bwrdd Iechyd yno i wasanaethu pobl ifanc a'u teuluoedd yn hytrach na rhanddeiliaid allanol ac ychwanegodd, er bod rhanddeiliaid allanol yn bwysig ac â rôl i'w chwarae, daeth staff i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â'r cynlluniau gweithredu allanol yn hytrach na gwrandio ar anghenion pobl ifanc. Dywedodd M Jehu ei fod wedi mynychu Fforwm Merthyr yn ddiweddar gyda P Mears lle nodwyd bod Iechyd Meddwl a CAMHS yn ddwy brif faes sy'n peri pryder i'r boblogaeth leol.

Dywedodd P Mears bod cyfleoedd wedi bod i sicrhau bod y model o ofal sy'n cael ei ddarparu yn aml-broffesiynol a bod cyfraniad pawb i'r gwasanaeth a'r gofal a ddarparwyd wedi cael ei gydnabod. Mynegodd P Mears bwysigrwydd gofyn i gleifion unigol beth oedd yn bwysig iddyn nhw a beth fyddai'n gwneud iddyn nhw deimlo'n well.

Mynegodd y Cadeirydd ei ddiolchgarwch i A Llewellyn am gyflwyno'r adroddiad.

Penderfyniad: **NODWYD** yr Adroddiad.

6.5 Proses Hunanasesu Gwelliant Parhaus mewn Ymateb i Ymyrraeth Wedi'i Thargedu

R Morgan-Evans gyflwynodd yr adroddiad.

Diolchodd y Cadeirydd i R Morgan-Evans am gyflwyno'r adroddiad.

Penderfyniad: **NODWYD** yr Adroddiad.

7. CYFLAWNI'N PWRPAS A'N CYFEIRIAD STRATEGOL

7.1 Dangosfwrdd Perfformiad Integredig

Cyflwynodd L Prosser yr adroddiad a gwahodd cwestiynau gan y Bwrdd.

Nododd P Roseblade fod y dosbarthiad cyfraddau marwolaeth yn ymddangos yn uwch yng Nghwm Taf Morgannwg o'i gymharu â Byrddau Iechyd eraill. Cadarnhawyd bod Cwm Taf Morgannwg yn uwch wrth i CTM gynnwys marwolaethau gofal lliniarol fel marwolaethau aciwt wrth i'r marwolaethau ddigwydd ar y safleoedd aciwt yn hytrach na bod mewn Hosbis. Rhoddodd D Hurford sicrwydd, er bod y data marwolaethau crai yn uwch na chyfartaledd

Cymru, bod marwolaethau mewn gwirionedd wedi gostwng i fod yn is na'r cyfartaledd.

Gofynnodd P Roseblade am fwy o wybodaeth am gamau trosglwyddo ambiwlans a pha waith oedd yn cael ei wneud ar hyn o bryd i helpu cleifion oedd yn aros mewn ambiwlansys. Nododd G Hughes bod cleifion oedd yn aros mewn ambiwlansys yn cael eu hasesu gan feddyg os nad oedd y claf yn gallu cael ei drosglwyddo i ysbyty ac ychwanegodd pe bai angen gwneud unrhyw ddiagnosteg y byddai'r claf yn cael y rhain ac yn cael ei gludo yn ôl i'r ambiwlans tra'u bod yn disgwyl i le ddod ar gael o fewn yr Adran Achosion Brys.

Nododd G Hughes bod gwaith yn cael ei wneud gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru mewn perthynas â lleihau cwantwm cyffredinol oedi ac ychwanegodd bod polisi rhyddhau coch newydd yn cael ei ddatblygu i sicrhau bod gweithgaredd rhyddhau coch yn cael ei gynnal cyn gynted â phosib. Nododd yr Aelodau fod cyfran fawr o gleifion hunan-gyflwyno o fewn ystafelloedd aros yr Adran Achosion Brys a oedd weithiau'n fwy sâl na'r cleifion oedd yn aros mewn ambiwlansys a nododd fod y timau'n gweithio'n galed i sicrhau bod y cleifion mwyaf sâl yn cael gwely cyn gynted â phosibl a oedd yn parhau i fod yn her barhaus.

Nododd yr aelodau fod gwaith yn cael ei wneud i wella'r sefyllfa, yn enwedig yn Ysbyty Tywysoges Cymru oedd yn profi cyfran fwy o oedi.

Cyfeiriodd N Milligan at faterion yn ymwneud â strôc a'r cynllun gweithredu tymor byr oedd i fod i gael ei adolygu ym mis Ebrill 2022. Dywedodd N Milligan fod yr adroddiad yn nodi, ym mis Mai, mai dim ond 2.9% o gleifion strôc gafodd eu derbyn yn uniongyrchol i uned strôc aciwt o fewn 4 awr, felly yn cydnabod nad oedd y camau tymor byr wedi gwneud gwahaniaeth ynghylch perfformiad ac nad oedd dyddiad wedi'i roi o ran pryd y byddai'r gwelliannau'n cael eu gwneud. Dywedodd G Hughes mai Lauren Edwards, Cyfarwyddwr Therapiau oedd Arweinydd Gweithredol Strôc, ac roedd yn cymryd nifer o faterion ymlaen fel rhan o'r gwaith gwella. Nododd yr aelodau mai dim ond 40% o gleifion â strôc oedd yn cyflwyno mewn ambiwlans, gyda'r mwyafrif o gleifion yn hunan-gyflwyno a oedd yn heriol. Yn dilyn trafodaeth, awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol pe bai modd cynnal trafodaeth bellach ar y Gwasanaethau Strôc mewn sesiwn Datblygu'r Bwrdd yn y dyfodol.

Cyfeiriodd N Milligan at dudalen 8 o'r adroddiad a gyfeiriodd at 71% o ymgysylltu â staff a cheisiodd eglurder o ran yr hyn yr oedd hyn yn ymwneud â hi a'r hyn oedd yn cael ei ystyried yn ymgysylltu â staff. Dywedodd N Milligan ei bod eisoes wedi codi'r ymholiad hwn o'r blaen yn y Pwyllgor Pobl a Diwylliant. Dywedodd M Hurley-Tyers y byddai'n darparu ymateb i'r ymholiad hwn y tu allan i'r cyfarfod.

Gweithredu

Gweithredu

Diweddariad ar Wella Gwasanaethau Strôc i'w gyflwyno i Sesiwn Datblygu'r Bwrdd yn y dyfodol.

7.1.2

Eglurder i'w ddarparu y tu allan i'r cyfarfod ynglŷn â'r hyn yr oedd 71% o ymgysylltu â staff yn cyfeirio at, a'r hyn oedd yn cael ei ystyried yn ymgysylltu â staff

Penderfyniad: **Ansawdd Perfformiad**

7.1.3

Cyflwynodd G Dix, D Hurford a G Galletly Adran Perfformiad Ansawdd yr adroddiad gan dynnu sylw at y materion allweddol ar gyfer sylw'r Bwrdd.

NODWYD adran Perfformiad Ansawdd yr adroddiad.

Penderfyniad:

Perfformiad Cyflawni Gweithredol

7.1.4

Cyflwynodd G Hughes adran Perfformiad Cyflawni Gweithredol yr adroddiad gan gyfeirio'n benodol at berfformiad cancer a'r gwaith sy'n cael ei wneud i wella'r sefyllfa.

Penderfyniad:

NODWYD adran Perfformiad Cyflawni Gweithredol yr adroddiad.

7.1.5

Perfformiad Gweithlu

Cyflwynodd M Hurley-Tyers adran Perfformiad y Gweithlu o'r adroddiad.

NODWYD adran Perfformiad y Gweithlu.

Perfformiad Ariannol

Cyflwynodd S May adran Perfformiad Ariannol yr adroddiad.

Croesawodd P Roseblade ddatblygiad parhaus yr adroddiad a oedd bellach yn llawer haws i'w ddarllen. Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan P Roseblade ynghylch a oedd pob bwrdd iechyd yn yr un sefyllfa o ran dileu colledion Covid o'r sefyllfa a oedd wedi creu diffyg mwy na'r disgwyl, dywedodd S May fod amrywiaeth sylweddol rhwng sefydliadau mewn perthynas â'r incwm tybiedig ar gyfer ymateb i Covid, gyda Cwm Taf Morgannwg ben isaf y raddfa. Nododd yr aelodau fod eglurhad bellach wedi'i ddarparu ynglŷn â'r hyn y gellid ei gynnwys yn yr incwm tybiedig.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan P Roseblade mewn perthynas â'r 'Diffyg am y Flwyddyn hyd yn hyn' oedd ar sail llinell syth tan ddiwedd y flwyddyn, dywedodd S May y byddai'n rhoi mwy o fanylion i P Roseblade ynghylch hyn y tu allan i'r cyfarfod ac ychwanegodd nad oedd y pontio o'r Covid wedi bod mor llyfn ag yr oeddent wedi gobeithio y byddai.

Penderfyniad:

Gweithredu

Croesawodd P Roseblade y sefyllfa well mewn perthynas â Pherfformiad Taliadau Sector Cyhoeddus. Er bod rhai gwelliannau wedi bod, dywedodd S

May bod gwelliannau pellach yr oedd angen eu gwneud, yn enwedig wrth godi ymwybyddiaeth o'r defnydd cywir o ORACLE a phrosesau Prynu i Dalu.

NODWYD adran Perfformiad Ariannol yr adroddiad.

Manylion i'w ddarparu i P Roseblade y tu allan i'r cyfarfod mewn perthynas â'r diffyg yn y flwyddyn hyd yma ar sail llinell syth tan ddiwedd y flwyddyn.

7.2 **Model Gweithredu CTM – Adroddiad Cynnydd**

Cyflwynodd P Mears yr adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan P Roseblade ynghylch a fyddai trosglwyddiadau cyllideb rhwng grwpiau gofal a chyflwyno hierarchaethau newydd yn gyraeddadwy erbyn 1 Awst, cadarnhaodd S May fod y Bwrdd Iechyd ar y targed i gyrraedd i gwrdd â'r dyddiad terfyn o 1 Awst gyda'r tîm yn disgwyl gallu adrodd yn y strwythur Grŵp Gofal ym Mis 5.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan P Roseblade ynghylch a oedd yn rhesymol dweud na fyddai unrhyw gynnydd neu ostyngiad mewn costau, dywedodd S May mai'r nod oedd i'r model newydd fod yn gost niwtral neu well. Nododd yr aelodau y byddai rhai swyddi gwag i ddechrau a fyddai'n darparu rhai arbedion afreolaidd.

Mynegodd y Cadeirydd ei ddiolchgarwch i A Llewellyn am gyflwyno'r adroddiad.

Penderfyniad: **NODWYD** yr Adroddiad.

7.3 **CTM 2030 – Ein Hiechyd, Ein Dyfodol**

Cyflwynodd L Prosser yr adroddiad a chynghori y byddai Dogfen Strategaeth yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd ym mis Medi.

Penderfyniad: **NODWYD** yr Adroddiad.

7.4 **Diweddariad Chwarter 1 2022-2023 Cynllun Blynnyddol**

Cyflwynodd L Prosser yr adroddiad gan nodi bod y Cynllun Blynnyddol wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru.

Dywedodd P Mears bod lefel yr heriau sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd wedi ei drafod gyda Llywodraeth Cymru yng nghyfarfod diweddaraf y Tîm Gweithredol ar y Cyd. Nododd aelodau fod Llywodraeth Cymru yn cefnogi safbwynt presennol y Bwrdd Iechyd, a nododd y byddai angen i drafodaethau ddechrau digwydd ym Mwrdd Medi 2022 mewn perthynas â datblygu'r cynllun ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Penderfyniad: **NODWYD** yr Adroddiad.

2.1 Stori'r Claf

Ar y pwynt hwn yn y cyfarfod nododd y Cadeirydd fod y materion technegol a brofwyd yn gynharach yn y cyfarfod bellach wedi'u datrys a gwahoddwyd G Dix i gyflwyno Stori'r Claf a oedd yn ymwneud â phrofiad claf o Wasanaethau Mamolaeth.

Diolchodd y Cadeirydd i'r claf am rannu'r stori.

Dywedodd G Dix fod y stori yn dangos gwerth rôl y Fydwraig Ymgynghorol ac ychwanegodd y byddai'n dweud wrth B Tweedale bod y stori wedi'i rhannu ac y byddai'n diolch i B Tweedale a'r tîm am y gwaith yr oeddent wedi'i wneud.

Ymddiheurodd y Cadeirydd am yr anawsterau technegol a gafwyd yn gynharach yn y cyfarfod gan nodi ei fod yn falch bod y Bwrdd wedi gallu gwrando ar y stori.

8 UNRHYW FUSNES ARALL

Nid oedd unrhyw fusnes arall.

9 Sut wnaethom ni yn y cyfarfod hwn?

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n croesawu adborth gan Aelodau'r Bwrdd o ran Cyfarfod y Bwrdd heddiw.

Nododd y Cadeirydd y byddai'n ceisio symud cyfarfodydd Bwrdd y dyfodol yn ôl i gael eu cynnal 'wyneb yn wyneb'.

10 DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir y cyfarfod nesaf dydd Iau 29 Medi am 10am.

11 DAETH Y CYFARFOD I BEN